### ❖ SIOPA NADOLIG

Ardal yn llawn prysurdeb
Miri nawr, ni siomir neb
Yn fan hyn, caiff pawb fwynhau
Yr ŵyl yn sŵn carolau.

Y mae'r plastig yn ddigon
Yn eu llaw i'w gwneud yn llon,
Nadolig yn eu dwylo
Ac mae'r byd i gyd o'i go'.

O ganol eu digonedd,
Nid yw hyn yn dod â hedd,
Nid yw iaith creu braw a dig
Yn deilwng o'i Nadolig.

Er i'r plant a'u presantau
Yn llawn hwyl ein llawenhau,
Mae Anrheg yr anrhegion
Heb wely'n y llety llon.

**Beti-Wyn James**